**(HCC 808)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Iau 8 Mawrth 2018**

**Yn Bresennol:** Kevin Roberts (Cadeirydd)
Huw Davies, Gareth Wynn Davies, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams

**Trwy Wahoddiad:** Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru)

**Y Weithrediaeth:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Jo Horder (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch (Eitem 7)

**Tîm Rheoli:** Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)
John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau’r Diwydiant)
Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu)

1. **<u>Croeso a Sylwadau’r Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod, yn enwedig Kathryn Jenkins, Dirprwy Brif Swyddog Diogelwch Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu’n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o’r Bwrdd:-

- 21 Ionawr 2018 – Bu’r Cadeirydd a’r Prif Weithredwr mewn cyfarfod rhagarweiniol gyda Tim Render, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Materion Gwledig i Lywodraeth Cymru.
- 22 Ionawr 2018 – Cyfarfod Bord Gron ERA Llywodraeth Cymru, Aberystwyth.
- 22 Ionawr 2018 (pm) Rhoddwyd cyflwyniad gan y Cadeirydd yng Nghynhadledd NFU Cymru – Brexit: Llunio Dyfodol Amaethyddiaeth yng Nghymru
- 26 Ionawr 2018 – Roedd y Cadeirydd yn aelod o’r panel yn aduniad y rhai a dderbyniwyd i’r Academi Amaethyddol 2012 – 2017
- 8 Chwefror 2018 – Ymunodd y Cadeirydd â rhanddeiliaid allweddol o’r diwydiant mewn cinio ar faes Sioe Frenhinol Cymru gyda Stuart Andrew AS, y Gweinidog dros Gymru a George Eustice AS, y Gweinidog Gwladol dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd

- 12 Chwefror 2018 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn ymweld â fferm Esgair-gawr, Rhyd-y-main, Dolgellau (Cadeirydd Sirol yr NFU ym Meirionnydd – Emlyn Roberts) ac yna cyflwyniad mewn cyfarfod hwyrol o aelodau'r NFU ym Meirionnydd yn Y Bala.

- 13 Chwefror 2018 – Bu'r Cadeirydd a Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant yn ymweld â ffermydd ym Metws-y-coed a Phentrefoelas. Yn dilyn hyn, bu'r Cadeirydd yn annerch myfyrwyr Coleg Llysfasi ac yn rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod sirol NFU Clwyd yn Rhuthun.

- 20 / 21 Chwefror 2018 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng Nghynhadledd yr NFU yn Birmingham.

- 22 Chwefror 2018 – Rhoddodd y Cadeirydd gyflwyniad i gyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio yn IBERS, Aberystwyth.

- 27 Chwefror 2018 – Bu'r Cadeirydd yn Uwch-gynhadledd Cig Eidion a Chig Oen Cronfa Cefn Gwlad y Tywysog yn Clarence House, Llundain. Pwrpas yr uwch-gynhadledd, a fynychwyd gan randdeiliaid o ledled y sectorau cig eidion a chig oen oedd ailddatgan yr heriau sy'n wynebu'r sector a sut y gallai'r diwydiant gydweithio i sicrhau gwytnwch mewn cyfnod anodd, yn enwedig ar ôl Brexit.

- Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn dal i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a thelegynadleddau mewn perthynas â chyllid wedi'i glustnodi.

- 3 Mawrth 2018 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cymryd rhan mewn telegynhadledd gydag Andy Richardson, aelod o Fwrdd Bwyd a Diod y DG.

- 9 Mawrth 2018 - Ymadawodd y Cadeirydd am daith Rhaglen Integreiddio Cadwyn Gyflenwi'r Sector Cig Coch i Seland Newydd (Taith Ymchwil Defra).

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

Cafwyd ymddiheuriadau gan John Davies ac Illtud Dunsford.

3. **<u>Datganiadau o Fuddiannau</u>**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol nad oedd dau ddatgeliad Cyfrinachedd, Gwrthdrawiad Buddiannau a Gwrthlwgrwobrwyo wedi eu cyflwyno eto ac y byddai'n codi'r mater gyda'r ddau unigolyn perthnasol.

Er mwyn cydymffurfio â Llywodraethu Corfforaethol cadarn, cafodd y Bwrdd ei atgoffa fod "Datganiadau o Fuddiannau" yn eitem agenda sefydlog a dylai unrhyw wrthdaro newydd / posibl gael ei nodi mewn cyfarfod o'r Bwrdd neu dylid anfon hysbysiad ysgrifenedig at y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 11 Ionawr 2018 (HCC 797)**

Cymerwyd bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd ddydd Iau 11 Ionawr 2018 wedi'u darllen. Cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a Chostau Adennill ar gyfer 2018 / 2019*

Nodwyd bod Ysgrifennydd y Cabinet / Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo argymhelliad y Bwrdd y dylai Cyfraddau a Chostau Adennill yr Ardoll 2018 / 2019 fod fel a ganlyn:-

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2018 / 2019** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm, y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm wedi'i Dalu gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm wedi'i Dalu gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £ 0.83 | £ 0.63 | £ 0.20 |
| **Gwartheg** | £ 5.67 | £ 4.34 | £ 1.33 |
| **Lloi** (hyd at 68kg) | £ 0.17 | £ 0.085 | £ 0.085 |
| **Moch** | £ 1.30 | £ 1.05 | £ 0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2018 / 2019** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi'i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

*Gweledigaeth a Chyfeiriad Strategol HCC hyd at 2025 (HCC 791)*

Cyflwynwyd drafft o'r cyhoeddiad a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Roedd y cyfieithiad Cymraeg wedi ei gwblhau.

Cytunwyd y byddai'n addas lansio'r uchod yn ystod digwyddiad Tir Glas Sioe Frenhinol Cymru yng Ngharnbwll, Four Crosses, Powys ddydd Mercher 16 Mai

2018. Fe wneid y trefniadau gan y Rheolwr Cyfathrebu a byddai'n adrodd i'r Bwrdd maes o law.

Nodwyd bod yna drafodaethau â Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr fod Cynllun Gweithredu Strategol Diwydiant Cig Coch Cymru (Cynllun Gweithredu hyd at 2020) yn gyson â Gweledigaeth HCC hyd at 2025 er mwyn atal dyblygu ac i wneud yn siŵr y byddai'r pontio yn drefnus.

*Taith Rhaglen Integreiddio Cadwyn Gyflenwi'r Sector Cig Coch i Seland Newydd (Taith Ymchwil Defra)*

Byddai'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad am yr uchod i'r Bwrdd cyn telegynhadledd Ebrill 2018.

*Cymorth ariannol o £50m wedi ei deilwra o Gronfa Bontio'r UE wrth i'r DG baratoi i adael yr UE*

Roedd y Prif Weithredwr yn trafod yr uchod â Swyddogion Llywodraeth Cymru a byddai'n adrodd i gyfarfod y Bwrdd ar 3 Mai 2018.

*Parodrwydd y Sector – ôl-Brexit*

Ar hyn o bryd roedd HCC yn gweithio gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru ar agweddau ar gynllunio wrth gefn, gan gynnwys ymchwilio i bosibiliadau cynhyrchu yn ôl y tymor ac ymyriadau er mwyn cael cydbwysedd rhwng y sectorau mân-werthu a gwasanaethau bwyd.

Hefyd, byddai gwaith yn dechrau ar gynhyrchu cig oen a chig eidion ar y bryniau / tir uchel gyda golwg ar yr amgylchedd. Cynigiwyd y dylai ansawdd bwyta cig oen fod yn rhan o'r Fenter Strategol.

Roedd hyn yn waith datblygu cychwynnol a gofynnid i'r Bwrdd gyfrannu at hyn maes o law.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 798) – I gynnwys crynodeb o werthusiad o ymgyrchoedd Cig Oen Cymru PGI ar gyfer y Defnyddiwr ac yn yr UE yn 2017*

Cymerwyd bod yr adroddiad gweithgareddau wedi'i ddarllen.

***Cyfathrebu***

*Gwefan Gorfforaethol HCC*

Roedd gwaith ar yr uchod yn mynd rhagddo.

***<u>Datblygu'r Diwydiant</u>***

*<u>Adolygiad y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth AHDB), ar y cyd â QMS a HCC,  o Ystodau Pwysau  Wyn SQQ</u>*

Câi adroddiad ar yr uchod ei gyflwyno maes o law.

***<u>Datblygu’r Farchnad</u>***

Cafwyd adroddiad gan y Rheolwr Datblygu'r Farchnad ar:-

- Gwerthusiad o Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI 2017 ac
- Ymgyrch Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru PVGI 2015 / 2018, wedi ei ariannu gan yr UE.

b. *<u>Bwletin y Farchnad (HCC 799)</u>*

Cyflwynwyd yr uchod er gwybodaeth.

c. *<u>Ariannol – Incwm a Gwariant a’r Fantolen tan 31 Rhagfyr 2017 (HCC 800)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

Adroddwyd bod yr amcanestyniad diwedd blwyddyn yn debygol o fod yn agos at y gyllideb a ragwelwyd.

d. *<u>Digwyddiadau i ddod (HCC 801)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

Tynnwyd sylw gan y Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau’r Diwydiant at ddigwyddiad HCC i’w gynnal ar 15 Mawrth, sef  ‘Ychwanegu at werth sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn y gadwyn cyflenwi cig coch’. Anelwyd y digwyddiad hwn at ladd-dai bach sy’n chwilio am gyfleoedd i ddelio â gwastraff yn fwy effeithlon – a thrwy hynny greu busnes mwy effeithlon.

7. **<u>Corfforaethol</u>**

Ymunwyd â'r cyfarfod gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

*a.* *<u>I dderbyn Cynllun Corfforaethol HCC 2018 / 2021 a oedd wedi ei gymeradwyo</u>*

Cafodd y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018 / 2021 ei dderbyn gan y Bwrdd.

b. *I gymeradwyo'r crynodeb o newidiadau i Gynllun Gweithredol drafft HCC 2018 / 2019 a oedd yn codi o gyfarfod y Bwrdd ar 11 Ionawr 2018 ac Adborth Llywodraeth Cymru (HCC 803)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

c. *I gymeradwyo Cynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2018 / 2019 (HCC 804)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

Y camau nesaf: Câi Cynllun Corfforaethol HCC 2018 / 2021 a Chynllun Gweithredol HCC 2018 / 2019 eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet i'w hystyried.

8. **Pwyllgorau HCC**

***Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu***

*I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018 (HCC 805)*

Nodwyd bod y Pwyllgor yn ystyried syniadau a dewisiadau ar gyfer cynhadledd flynyddol HCC 2018 a byddai'n adrodd i'r Bwrdd yn y cyfarfod ar 3 Mai 2018.

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad a oedd yn amlinellu'r gwerthusiad o'r tendr eiddo a allai gael ei ddefnyddio ar gyfer hen adeilad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar faes Sioe Frenhinol Cymru.

Câi cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018 (HCC 805) eu hail-gyflwyno i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo yn y telegynhadledd nesaf er mwyn cael eu derbyn wedyn gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)***

a. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori R&D&KE a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Hydref 2017 (HCC 806)*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor R&D&KE a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Hydref 2017 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

b. *I gael adroddiad llafar am y cyfarfod o Bwyllgor Cynghori* R&D&KE *a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Mawrth 2018*

Cafwyd adroddiad ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor:-

- Roedd cyflwyniad am gais cyllido RDP ynghylch Pacio Smart yn arbennig o ddiddorol a pherthnasol

- Roedd rhai sefydliadau heb ymateb i'r gwahoddiad i ymestyn aelodaeth o'r Pwyllgor, a byddid yn cysylltu â'r rhain unwaith eto

- Byddai'r Bwrdd maes o law yn cael gwybodaeth am y prosiectau R&D a oedd yn derbyn cefnogaeth HCC ar hyn o bryd

- Dywedodd y Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant fod cyfarfod wedi ei gynnal â AHDB i drafod y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau R&D i'w hariannu ag arian ardoll a oedd wedi ei glustnodi. Byddai'r meysydd a ganlyn yn cael eu hystyried ymhellach:-

    1) Defnydd cyfrifol o wrthfiotigau
    2) Monitro iechyd a lles
    3) Ymdrin â bioddiogelwch ar y cyd
    4) Y maint gorau ar gyfer anifeiliaid magu llawn-dwf
    5) Gwneud yn siŵr fod dadansoddiadau o borfwyd yn gywir.

9. **I dderbyn diweddariad am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Oherwydd prinder amser gohiriwyd trafod yr eitem hon tan y telegynhadledd ym mis Ebrill.

10. **I dderbyn diweddariad llafar ynghylch cais HCC am gyllid gan y Cynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020 ar ran y Diwydiant Cig Coch**

Roedd y Weithrediaeth yn dal i weithio ar y ceisiadau yn dilyn adborth gan Lywodraeth Cymru. Câi'r ceisiadau eu hailgyflwyno, gan obeithio y ceid canlyniad buan a chadarnhaol gan Lywodraeth Cymru

Dywedodd y Cadeirydd fod yr arian hwn yn dal i fod yn hanfodol er mwyn cyflawni strategaeth HCC ar ran diwydiant cig coch Cymru.

11. **I drafod y diffygion hylendid a Diogelwch Bwyd yn ddiweddar ac effaith hyn ar hyder y defnyddiwr**

Oherwydd diffyg amser, gohiriwyd trafodaeth ar yr eitem hon tan gyfarfod y Bwrdd ar 3 Mai 2018.

12. **Papur er gwybodaeth – I gael adroddiad yn dilyn presenoldeb HCC yn Sioe Fasnach Gulfood, Dubai 18 – 22 Chwefror 2018 (HCC 807)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

13. **<u>I gael cyflwyniad ar Bolisi Diogelwch Technoleg Gwybodaeth Llywodraeth Cymru – Kathryn Jenkins, Dirprwy Brif Swyddog, Llywodraeth Cymru</u>**

Cafwyd trosolwg gan Kathryn Jenkins, y Dirprwy Brif Swyddog Diogelwch, o'r polisi uchod, ynghyd â'r broses archwilio a ddisgwylid gan Lywodraeth Cymru a HCC mewn perthynas â hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Kathryn Jenkins am gyflwyniad diddorol iawn a llawn gwybodaeth. Pwysleisiodd bwysigrwydd cael polisi ac arferion effeithiol i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.

14. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

*<u>Estyn Aelodaeth y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata (i gynnwys proseswyr o'r mentrau mawr, cymhedrol a bychan eu maint)</u>*

Nodwyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi o hyd i'r uchod gan y Weithrediaeth a châi ei drafod maes o law gyda Chadeirydd y Pwyllgor.

15. **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>**

Dydd Iau 3 Mai 2018.

Nodwyd y byddai cyfarfod o'r Bwrdd a oedd i fod i'w gynnal ddydd Iau 6 Medi 2018 yn cael ei gynnal nawr ddydd Iau 13 Medi 2018.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**